**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 GORFFENNAF 2013** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 MEHEFIN 2013** |
| AWDUR | **TREVOR O EDWARDS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 31 o adroddiadau archwilio mewnol i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Ebrill 2013, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2013. Derbyniodd 5 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

1.2 Felly, yn y Pwyllgor penderfynwyd:

**a) Derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ionawr i 31 Mawrth 2013 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**b) Sefydlu'r Gweithgor canlynol i ystyried yr archwiliadau dderbyniodd gategori barn C –**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cynghorwyr Aled Ll. Evans, Sion W. Jones ac Angela Russell, ond bod holl aelodau'r pwyllgor i gael cyfle i wasanaethu ar y Gweithgor i'r dyfodol ac i'w dewis ar drefn rota.**

## 2 CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 28 Mehefin yn Ystafell Llyfni, gyda Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, yr Cynghorwyr Angela Russell ac Aled Ll. Evans a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn bresennol.

2.2 Mynychodd swyddogion i drafod 4 allan o 5 o'r adroddiadau.

2.3 Yr adroddiadau a dderbyniodd farn 'C' yn ystod y cyfnod dan sylw oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH |
|---|---|---|
| Telerau Contractau - Gwiriadau DBS | Corfforaethol | |
| Gwiriadau DBS Staff | Corfforaethol | |
| Cyfarpar gan Cyn-aelodau | Strategol a Gwella | Democratiaeth |
| Rheoli Newid i Systemau TG | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth |
| Prosesu Data Cyflenwyr Ynni | Gofal Cwsmer | Tir ac Eiddo'r Cyngor |

2.4 Rhoddwyd sylw i'r crynodebau hyn yn eu tro gan aelodau'r Gweithgor. Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cynnig cefndir pellach, gan gynnwys cyflwyno pwyntiau perthnasol o'r adroddiad llawn. Roedd Uwch Reolwyr wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sydd yn codi, ac yn anad dim y gwaith sydd wedi ei wneud ers cyhoeddi'r adroddiad archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

### 2.5 Telerau Contractau - Gwiriadau DBS a Gwiriadau DBS Staff

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliadau hyn oedd:

***Telerau Contractau - Gwiriadau DBS***

*Dangosodd yr archwiliad fod angen edrych yn fanwl ar drefniadau lle mae'r Cyngor yn comisiynu neu'n rheoleiddio gwaith gyda Phlant a Pobl Ifanc oddi wrth asiantaethau neu gyrff eraill gan fod y trefniadau presennol yn anghyson. Gwelir bod trefniadau cryf mewn rhai adrannau ar gyfer monitro gwiriadau DBS a staff y darparwyr. Mae angen trefniadau cyson ar draws y Cyngor ar gynnal a monitro gwiriadau DBS a hyfforddiant amddiffyn plant ar gyfer darparwyr.*

***Gwiriadau DBS Staff***

*Dangosodd yr archwiliad fod gwaith o safon dda wedi cael ei wneud gan yr Adrannau perthnasol i leihau bylchau unigolion oddi fewn y Cyngor sydd heb wiriad DBS. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gan yr Adrannau ers mis Hydref 2012. Hefyd, gwelwyd bod gwaith yn ei le i geisio cryfhau systemau monitro DBS, trefniadau penodiadau newydd oddi fewn y Cyngor, a threfniadau ynglŷn â honiadau o gamymddwyn proffesiynol. Fodd bynnag, mae rhai materion allweddol o safbwynt paratoi a dosbarthu arweiniad clir a chyson angen sylw pellach a dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.*

2.5.2 Mynychodd Geraint Owen, Uwch Rheolwr Personel, Diogelwch, Iechyd a Lles, y cyfarfod yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr Uwch Reolwr o fewn Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am drefniadau recriwtio, ond hefyd gan mai ef yw Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob Adran, ac yn gyfrifol am ledaenu ymarfer da am drefniadau diogelu trwy'r Cyngor, a gweithredu prosiectau yn y maes diogelu.

2.5.3 Rhoddwyd cyflwyniad i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Esboniwyd fod Archwilio Mewnol wedi cael eu comisiynu i ymgymryd â'r gwaith yma gan Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Panel Gweithredol, er mwyn cael darlun annibynnol o'r gwir sefyllfa ar draws y Cyngor.

2.5.4 Derbyniwyd cadarnhad manwl gan yr Uwch Rheolwr Personel, Diogelwch, Iechyd a Lles am y camau sydd yn cael eu cymryd ar draws y Cyngor er mwyn gwella'r trefniadau:

- Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg at bob Prif Weithredwr yn 2011 yn dilyn adroddiad beirniadol o'r trefniadau mewn un awdurdod lleol gan Estyn a'r Arolygiaeth Gofal. Roedd y Gweinidog yn awyddus i gael sicrwydd fod trefniadau mwy cadarn yn eu lle mewn awdurdodau eraill, a lle nad oeddynt fod camau'n cael eu cymryd ar frys.
- Erbyn hyn, dim ond 34 gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl yn ôl – a hynny yn y cyd-destun fod miloedd o weithwyr yn derbyn gwiriad.
- Daeth y DBS i fodolaeth ar 1 Rhagfyr 2012, gan ddisodli'r CRB a'r ISA. Roedd hyn yn dilyn Deddf Amddiffyn Rhyddid 2012.
- Mae polisi newydd bellach yn ei le er mwyn gwirio gweithwyr. Ers 17 Mehefin 2013, mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi datgan na fydd yn darparu copi o'r dadleniad cofnod troseddol i'r cyflogwr. Golyga hyn mai dim ond i'r unigolyn a enwir yn y cais am wiriad y darperir tystysgrif o hyn ymlaen. Mae'r Gwasanaeth yn adrodd ei fod yn gwneud hyn yn sgil newid yn y gyfraith sy'n nodi mai dim ond i'r unigolyn sy'n cael ei wirio y gellir darparu'r dystysgrif.
- Cyfeiriwyd at achos diweddar yn Lloegr, lle roedd unigolyn wedi ennill achos llys gan fod trosedd bychan oedd wedi ei gyflawni sawl blwyddyn yn gynharach wedi ei rwystro rhag cael swydd. Esboniwyd bod rheoliadau newydd wedi dod i rym yn dilyn yr achos hwnnw a bod y Cyngor eisioes wedi cymryd camau i gydymffurfio hefo'r newidiadau sy'n deillio o'r Ddeddf Gwarchod Rhyddid a gymeradwywyd ym Mai, 2012.
- Rhoddwyd amlinelliad o drefniadau'r Cyngor er mwyn gwneud cais am wybodaeth o'r DBS, ac am y basdata staffio sy'n cael ei ddatblygu o fewn y Cyngor, fydd yn hwyluso'r drefn.
- Mae'r Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sy'n cynnwys dau aelod Cabinet (Gofal ac Addysg), Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, y Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n Gyfarwyddwr Arweiniol Plant, Pennaeth Addysg, Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, Uwch Reolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, Cydlynydd Bwrdd Diogelu Plant Ynys Môn a Gwynedd yn ogystal a'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Uwch Reolwr Personel, Diogelwch, Iechyd a Lles. Mae'r Panel Strategol eisoes wedi trafod yr adroddiad Telerau Contractau - Gwiriadau DBS, a bydd y Panel Gweithredol yn rhoi sylw pellach i'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf; dyma fydd un o'r prif eitemau ar y rhaglen. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod angen ystyried y trefniadau monitro sydd yn eu lle.

**2.5.5 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr am fynychu'r cyfarfod, ac am y diweddariad ar y sefyllfa o fewn y Cyngor er mwyn ceisio gwella'r trefniadau yn barhaus.**

### 2.6 Cyfarpar gan Cyn-aelodau

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Nid oedd modd cynhyrchu tystiolaeth fod rheolaethau priodol ar gyfer y prosesau o gasglu cyfarpar TG yn ôl gan gyn-aelodau. Mynegwyd fod nifer o'r eitemau dan sylw wedi eu dychwelyd a wedi eu dyrannu i ddefnyddwyr eraill, ond nad oedd cofnodion ar gael yn dynodi pa unigolion (cyn-aelodau) wnaeth ddychwelyd pa eitemau, felly nid oes modd dilyn i fyny ar unrhyw achosion lle na fyddai hynny wedi digwydd.*
*Mae'n ymddangos mai un o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at hyn yw fod y cyfrifoldebau wedi trosglwyddo o'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol i'r Adran Strategol a Gwella yn dilyn yr etholiad diwethaf, a nad oedd cofnodion ar gyfer cyn-aelodau yn cael blaenoriaeth pryd hynny.*
*Gan nad oes modd datgan fod pob eitem wedi ei ddychwelwyd fel y disgwyliwyd, nid oes modd i'r archwilwyr sicrwydd yn y broses o gasglu'r cyfarpar TG gan gyn-aelodau'r Cyngor.*
*Nid oes risgiau diogelwch TG yn sgîl hyn gan fod cyfrifon y cyn-aelodau wedi eu hanablu.*
*O ran colledion ariannol, byddai angen ystyried prisiau prynu'r eitemau gwreiddiol ynghyd â prisiau eu hamnewid, byddai hyn yn berthnasol ar gyfer y tocynnau dilysu adnabyddiaeth (Citrix).*
*Noder fod y teclynnau unigol ar gyfer y cynllun presennol wedi eu cofnodi yn ffurfiol yn gysylltiedig ag unigolion gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, sydd am hwyluso proses o rhoi cyfrif am eu lleoliad. Mae cytundeb wedi ei baratoi a'i arwyddo gan pob Aelod sydd wedi derbyn y teclynnau yma sydd yn cynnwys cymal yn nodi fod yr eitemau yn eiddo i'r Cyngor ac y byddent yn cael eu dychwelyd ar ddiwedd y cyfnod. Mae'r cofnodion yma ym meddiant y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a'r Adran Strategol a Gwella.*

2.6.2 Ar ôl cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, rhoddwyd esboniad o'r trefniadau gan Huw Ynyr, Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes:

- Roedd yr Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn gytûn fod yr adroddiad archwiliad wedi canolbwyntio ar y ffobiau CITRIX a ddefnyddiwyd dan yr hen drefn. Roedd cofnod o'r rhain yn cael eu cadw ar daenlen nad oedd yn cael ei ddiweddaru'n aml.
- Rôl y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yng nghyd-destun yr archwiliad yma yw gweithredu fel darparwyr technoleg ac arwain arno. Roedd y penderfyniad i fuddsoddi mewn iPads ar gyfer aelodau yn ganlyniad i waith ymchwil ar sail gwaith aelodau.
- Roedd yr Uwch Reolwr yn cydnabod fod y cynlluniau ar gyfer cofnodi eitemau wedi bod yn fratiog yn y gorffennol, ond roedd yn gallu cynnig sicrwydd i'r Gweithgor fod y trefniadau llawer mwy cadarn erbyn hyn, yn enwedig ar gyfer y cyfrifiaduron llechen:
    - Gwneir cofnod o rif cyfresol pob peiriant
    - Mae cytundeb yn cael ei arwyddo gan aelodau
    - Caiff pob ymholiad ei gofnodi gan y Ddesg Gymorth
    - Mae meddalwedd ar pob llechen yn golygu fod modd i'r Cyngor wybod pa ddefnydd a wneir o'r peiriannau (ond ddim ddarllen cynnwys ebyst ayb).
- Nodwyd gan yr Uwch Reolwr mai'r Gwasanaeth Democratiaeth sy'n gyfrifol am alw cyfarpar (a bathodynnau adnabod ayb) yn ôl. Symudodd y Gwasanaeth yma o'r Adran Democratiaeth a Cyfreithiol i'r Adran Strategol a Gwella yn ystod 2012.

2.6.3 Cafwyd trafodaeth fyr am yr angen i bob aelod unigol dderbyn hyfforddiant Diogelu Gwybodaeth, a'i fod yn bwysig pwysleisio i bob aelod wneud hynny.

**ARGYMHELLIAD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO: Fod y Pwyllgor yn pwysleisio'r angen i bob aelod dderbyn hyfforddiant Diogelu Gwybodaeth, ac yn gwneud cais am sicrwydd fod hyn wedi digwydd.**

## 2.7 Rheoli Newid i Systemau TG

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Yn y Cyngor, mae mesurau rheoli newid wedi eu diffinio mewn proses swyddogol, a camau gweithredu wedi eu dogfennu. Ar adeg yr archwiliad, mae'r ddogfen sydd yn disgrifio'r broses â statws drafft. Mae gweithgor o swyddogion wedi ei sefydlu, sydd â chyfrifoldeb am asesu ac awdurdodi newidiadau, a mae'r system gwybodaeth mewn lle yn rhoi sgôp i'r Gwasanaeth TG weithredu trefn cynhwysfawr ar gyfer rheoli newid.*

*Fodd bynnag, nid oes gweithrediad eang o'r weithdrefn ar draws y Gwasanaeth TG. Mae'n ymddangos fod y syniad o gofnodi ac aros i phob newid gael ei awdurdodi cyn bod modd gweithredu yn cael ei ystyried gan rai aelodau o staff fel proses gweinyddol sydd yn ychwanegu oediad a baich gwaith yn hytrach nag elfennau o reolaeth. Mae angen i'r Gwasanaeth TG sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer trosglwyddo'r gweithdrefn sydd wedi ei ddylunio i fod yn ymarfer cyffredinol ar gyfer staff, gan ystyried camau fel asesu'r rhwystrau presennol a cyflwyno datrysiadau ymarferol ynghyd â chyflwyno camau gorfodaeth lle yn briodol. Mae'r broses drafft yn mynegi fod gan y gweithgor rôl i adnabod unrhyw newidiadau sydd wedi eu gweithredu heb ddilyn y camau disgwyliedig. Gan fod y gweithgor yn ymwybodol bod achosion o hyn, fe fyddai yn briodol i sefydlu cynllun gweithredu priodol ar eu cyfer.*

2.7.2 Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yr archwiliad yma yn ymwneud yn benodol â threfniadau o fewn Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ei hun er mwyn delio â newidiadau i systemau gyfrifiadurol. Nodwyd fod rheolwyr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau bod modd olrhain unrhyw newidiadau i systemau cyfrifiadurol, ond nad oedd staff technegol bob amser yn dilyn y canllawiau hyn.

2.7.3 Esboniodd yr Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes mai system desg gymorth y Gwasanaeth a ddefnyddir, ac mae disgwyl i unrhyw newid i system sy'n effeithio ar fwy nag un defnyddir gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Cynghori Newid, sef rheolwyr y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

2.7.4 Roedd yr Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes yn cydnabod fod hyn yn broses hirwyntog, ac sy'n golygu newid diwylliant i nifer o swyddogion technegol. Adroddwyd y byddai system newydd yn dod i rym yn fuan, fydd yn lliflinio'r broses. Dylai hyn wella cydymffurfiaeth.

**2.7.5 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes am fynychu'r cyfarfod ac am yr wybodaeth a gyflwynwyd ganddo. Roedd y Gweithgor o'r farn y byddai'r camau a amlinellwyd ar gyfer y ddau adroddiad yn gwella'r trefniadau rheolaethau ac yn gwella'r gwendidau a amlygwyd yn yr adroddiadau archwilio.**

## 2.8 Prosesu Data Cyflenwyr Ynni

2.8.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Gwelwyd fod system mewn lle ar gyfer cofnodi darlleniadau defnydd ynni holl eiddo'r Cyngor, ond mae llawer o achosion o ddarlleniadau amcangyfrifedig yn cael eu derbyn a nid yw'r broses wedi ei awtomeiddio. Oherwydd y gwaith prosesu a mewnbynnu darlleniadau i'r system, nid oes amser yn weddill i gynnal ymarferion adnabod ac ymchwilio eithriadau digonol.*

*Gan fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar dueddiadau defnydd ynni, ni fyddai'n bosib adnabod unrhyw eithriadau drwy ddefnyddio'r ffigyrau yma. Mae hyn yn tanseilio unrhyw broses o adnabod eithriadau.*

*Mae sgôp i reolwyr safle fod yn rhagweithiol gan hysbysu cyflenwyr ynni o wir ddarlleniadau.*

2.8.2 Wrth drefnu'r cyfarfod rhoddwyd ystyriaeth i gyd-destun yr archwiliad. Er enghraifft, mae oblygiadau potensial llawer mwy difrifol o fethu rheoli trefniadau gwirio yn y broses recriwtio a phenodi oherwydd gall hyn effeithio ar les plant, pobl ifanc neu oedolion bregus, tra nad oes materion lles difrifol ynghlwm â'r categori barn 'C' ar gyfer Prosesu Data Cyflenwyr Ynni, er y gall arwain at ddefnydd aneffeithiol o adnoddau. Felly, oherwydd cyfuniad o argaeledd swyddogion a'r angen i roi'r prif ffocws y cyfarfod ar y risgiau oedd yn ymddangos yn yr adroddiadau eraill, nid oedd swyddog ar wahân i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn mynychu i drafod yr adroddiad yma.

2.8.3 Er hyn, cafwyd trafodaeth fuddiol rhwng yr Uwch Reolwr – Archwilio a Risg ac aelodau'r Gweithgor, a cytunwyd fod defnydd ynni yn fater y bydd angen sylw gynyddol gan Archwilio Mewnol yn y blynyddoedd sydd i ddod.

## 3. ADBORTH CYFFREDINOL

**3.1 Roedd holl aelodau'r Gweithgor o'r farn fod y arbrawf wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan roi cyfle i gael trafodaeth fanwl o rhai o prif faterion risg a rheolaeth y Cyngor.**

**3.2 Roedd pawb yn unfrydol y dylai'r drefn barhau, gan gylchdroi'r aelodaeth er mwyn sicrhau fod pawb sydd ar y Pwyllgor Archwilio yn cael cyfle i fod ar y Gweithgor.**